

## **Diogelu Eiddo Gwag**

**Gall eiddo gwag fod yn darged i droseddwyr, yn enwedig o ran dwyn pibellau neu geblau copr a allai olygu difrod dŵr neu broblemau dadfeilio eraill.**

Cyfrifoldeb y perchnogion yw cynnal a chadw a diogelu eiddo gwag fel nad yw'n peri niwsans i bobl eraill.

### **Rydym yn argymhell eich bod yn...**

- Yswirio'r adeilad â'r lefel briodol o yswiriant.
- Ystyried diffodd y dŵr wrth y stopfalf a draenio'r rheiddiaduron os bydd yr eiddo'n wag am gyfnod amhenodol o amser. Gwiriwch a oes gennych gyflenwad dŵr a rennir yn gyntaf!
- Gosod switsys amseru ar oleuadau fel eu bod yn dod ymlaen gyda'r nos sy'n rhoi'r argraff bod rhywun yn byw yno.
- Gosod golau diogelwch i oleuo ardaloedd tywyll.
- Gosod cloeon o ansawdd da ar y ffenestri a'r drysau.
- Rhoi llenni rhwylllog neu gysgodlenni ar y ffenestri fel na ellir gweld y tu mewn yn hawdd iawn.
- Sicrhau bod yr ardd yn daclus a sicrhau bod y biniau yn wag ac wedi'u rhoi o'r neilltu. Bydd hyn hefyd yn cadw'ch cymdogion yn hapus.
- Rhoi gwybod i'ch cymdogion os ydych ar delerau da gyda nhw, fod yr eiddo'n wag. Efallai y gallwch roi eich rhif ffôn iddynt fel y gallant gysylltu â chi os ydynt yn gweld neu'n clywed unrhyw beth anarferol yn yr eiddo.
- Sicrhau bod gan yr eiddo larwm lladron a bod y drysau a'r ffenestri ar glo.
- Ystyried cadw'r gwres yn isel ar amserydd yn y gaeaf er mwyn atal eich pibellau rhag byrstio.
- Sicrhau bod post yn cael ei gasglu o'r eiddo yn rheolaidd.

Os bydd y gwaethaf yn digwydd a bydd rhywun yn torri i mewn i'r eiddo, mae atebion mwy parhaol ar gael megis gosod bordiau neu estyllod dur ar yr eiddo i atal mynediad i unrhyw un heb awdurdod. Ceir amrywiaeth o gwmnïau diogelwch sy'n gallu helpu gydag atebion diogelwch ar gyfer eiddo gwag tymor hir, gan gynnwys larymau wedi'u cydgysylltu.

## Cynlluniau Gwarcheidwaid Eiddo

Hefyd mae nifer o gwmnïau ar y farchnad sy'n darparu cynlluniau gwarcheidwaeth

Dyma egwyddorion y cynlluniau hyn:

- Mae eiddo mewn mwy o risg pan fyddant yn wag felly, gyda chaniatâd y perchnogion, gallent drefnu i warcheidwaid fyw yn yr eiddo.
- Maent yn gwneud gwiriad credyd a geirdaon i warcheidwad ar posib i fyw yn eiddo perchnogion sy'n absennol.
- Gall gwarcheidwaid fyw preswyllo yn eiddo gwag neu unedau masnachol.
- Rhaid i bob gwarcheidwad gydymffurfio â rheolau llym - yn aml bydd hyn yn cynnwys dim cŵn, dim plant, dim ymwelwyr answyddogol a dim gwyliau heb ganiatâd (am fod rhaid i'r cwmni drefnu i rywun arall aros yn yr eiddo yn ystod gwyliau i atal yr eiddo rhag bod yn wag). Bydd gwiriadau yn cael eu cynnal bob mis i sicrhau bod y rheolau yn cael eu dilyn.
- Mae rhaid i bob gwarcheidwad lofnodi cytundeb sydd, yn aml, yn golygu mai dim ond 30 diwrnod o rybudd y bydd eu hangen arnynt cyn rhaid gadael yr eiddo.
- Ychydig o gostau a godir ar y perchennog am fod unrhyw gostau yn cael eu talu gan incwm rhent y gwarcheidwaid.
- Dim ond eiddo sy'n cyrraedd y safon fydd yn addas ar gyfer y cynllun (h.y. bydd eiddo lle mae lladron wedi torri i mewn yn y gorffennol a dwyn pibellau copr etc ac sydd heb system wresogi yn cael ei eithrio).
- Ar gyfer rhai eiddo, megis cartrefi gofal preswyl, gellir lleoli mwy nag un gwarcheidwad yno (yn amodol ar ofynion Tai Amlbreswyl (HMO)).

Mae ambell cwmni ar y farchnad s'yn darparu'r gwasanaeth hwn; fodd bynnag, bydd rhaid i chi wirio pob cwmni i'w weld beth mae'n ei gynnig a beth yw'r costau/manteision yn unol â'ch amodau personol.

Os ydych yn chwilio'r rhyngrwyd am 'Cynllun Gwarcheidwaid Eiddo' gallwch nodi pa gwmnïau sy'n cynnig y cynlluniau, a sut i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth.